| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20 MAWRTH 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - RHEILFFORDD FYNYDD YR WYDDFA – CAFFI GORSAF LLANBERIS, SIOP ANRHEGION A'R TRADING POST** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Rheilffordd Fynydd yr Wyddfa, - Caffi Gorsaf Llanberis , Siop Anrhegion a'r Trading Post, Llanberis LL55 4TY gan Heritage Attractions Ltd
Mae'r eiddo yn cynnwys caffi a siop gydag ardal eistedd tu allan. Mae'r eiddo yn fan cychwyn a chyrraedd ar gyfer Rheilffordd Treftadaeth yr Wyddfa

Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol odd iar ac ar yr eiddo a cherddoriaeth wedi ei recordio o dan do.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Monday 08:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-23:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 08:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-23:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol**<br>Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Llun/Monday 08:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 08:00-23:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff ar ofynion y drwydded a phwysigrwydd sicrhau nad oes gwerthiant alcohol i rai o dan 18 neu gwsmeriaid sydd wedi gôr- yfed
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ar sut i atal gwerthiant a defnydd cyffuriau anghyfreithlon
- Bwriedir gweithredu polisi 'Her 25'
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Arwyddion i ofyn i gwsmeriaid barchu trigolion cyfagos, ac i beidio ymgynnull tu allan i'r eiddo yn gwneud sŵn
- Osgoi symud biniau a sbwriel o gwmpas tu allan i'r eiddo ar ôl 23:00, adegau sy'n debygol o greu niwsans i drigolion cyfagos

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Gwasanaeth tan ac Achub | Dim sylwadau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim sylwadau |
| Aelod lleol | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Trigolion Cyfagos | 3 llythyr yn gwrthwynebu |

**Gwrthwynebiad - trigolion lleol**

Derbyniwyd 3 llythyr yn nodi gwrthwynebiad i'r cais oherwydd pryderon y bydd y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn tanseilio'r amcanion Trwyddedu o

- Sicrhau diogelwch y cyhoedd
- Diogelu rhag niwsans cyhoeddus

Mae'r trigolion sydd wedi datgan gwrthwynebiad yn byw yn agos iawn i'r eiddo; ac maent yn bryderus y bydd caniatáu gwerthiant alcohol o'r eiddo a adnabyddir fel y Trading Post o 8 y bore hyd 23:00 y nos yn arwain at gynnydd mewn defnydd o'r eiddo , gyda risgiau diogelwch y cyhoedd yn cynyddu oherwydd mwy o bobl yn ymgynnull o flaen / ymweld â'r Trading Post.

Dim ond llecyn bychan o dir sydd o flaen y Trading Post (gweler y llun a atodir gyda llythyrau'r gwrthwynebwyr) ac mae pryderon fod risgiau diogelwch yn codi oherwydd prysurdeb y ffordd .
Datganwyd hefyd y byddai'r hawl i chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio yn ddyddiol ar eiddo'r Trading Post tan 23:00 yn debygol o arwain at broblemau sŵn i'r trigolion cyfagos.

**Cyfarfod cyflafareddu 20 Chwefror 2019**

Fe ystyriwyd pryderon y gwrthwynebwyr i fod yn rhai dilys; ac fe gynigwyd y cyfle i'r gwrthwynebwyr drafod eu pryderon gyda'r ymgeisydd mewn cyfarfod cyflafareddu.
Mae canllawiau adran 182 o'r Ddeddf Drwyddedu 2003 yn annog defnyddio cyfarfodydd cyflafareddu rhwng ymatebwyr ac ymgeisydd lle mae gobaith o gyfaddawdu sydd yn bodloni'r

partïon sy'n gwrthwynebu. Ambell waith fe all cyfarfodydd o'r fath roi cyfle i'r ymgeisydd i ehangu ar fwriad y cais; gan ymhelaethu ar ragofalon a fwriedir er mwyn lleddfu pryderon gwrthwynebwyr.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyflafareddu gyda swyddogion yr Uned Drwyddedu yn bresennol ar y 20 o Chwefror 2019.
Fel canlyniad i'r cyfarfod, fe gytunodd yr ymgeisydd gyfaddawdu a chynnig newidiadau a derbyn amodau ar y cais fel a ganlyn -

a) Cytunwyd i gyfyngu oriau gwerthiant alcohol yn y Trading Post i 09:00 tan 18:00 .
b) Cytunwyd i werthu poteli cwrw a gwirodydd 'arbenigol' yn unig yn y Trading Post
c) Cytunwyd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo Trading Post yn unig.
d) Dim cerddoriaeth wedi ei recordio i'w chwarae o'r Trading Post nac y Maes Parcio ar unrhyw adeg.
e) Oriau gweithgareddau trwyddedig ac amodau arfaethedig i aros yr un fath a'r cais gwreiddiol ar gyfer Caffi Gorsaf Llanberis a'r siop anrhegion

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**
Gan fod y gwrthwynebwyr a'r ymgiesydd wedi cytuno i 'r newidiadau a nodwyd i'r cais eisioes; argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo y cais - yn unol a'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod cyflafareddu; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.